# Rolau deuol

28 Medi 2016

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 13 Medi, pan wnaethoch ofyn,

1. *Pa Aelodau'r Cynulliad sydd â DWY swydd gyhoeddus etholedig neu ragor ar ben eu swyddi fel Aelodau'r Cynulliad?*
2. *Beth yw'r rheolau a'r GORCHYMYN a gymhwyir neu na gymhwysir i'r Aelodau hynny sydd â dwy swydd?*

1. Yn ôl y Gofrestr o Fuddiannau Aelodau'r Cynulliad, nid oes gan unrhyw Aelod Cynulliad (AC) ddwy swydd gyhoeddus etholedig neu ragor ar ben ei swydd fel Aelod Cynulliad.
   Yn ôl Adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 2, mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gadw a chyhoeddi Cofrestr o Fuddiannau Aelodau'r Cynulliad. Caiff gwybodaeth am y rhai sydd â swydd arall ar ben eu swydd fel Aelod Cynulliad ei nodi yn y gofrestr hon.

   Mae'n ofynnol i Aelodau'r Cynulliad gofrestru unrhyw fuddiannau perthnasol cyn pen wyth wythnos ar ôl tyngu'r llw neu roi cadarnhad, a chofrestru unrhyw newidiadau i'w buddiannau hynny cyn pen pedair wythnos. Mae adran 36(7)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn drosedd i unrhyw Aelod gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad heb gofrestru unrhyw fuddiannau perthnasol fel y nodir yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 2.

2. Mae'r rheolau ynghylch anghymhwyso Aelodau wedi'u nodi yn adrannau 16 - 19 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn benodol, mae adran 16 yn ymdrin â swyddogaethau a swyddi sy'n anghymhwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad. Ers 2012, gwelwyd dau newid o bwys yn y rheolau ac maent wedi'u nodi isod.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Yn gyntaf, ychwanegwyd dwy adran newydd at Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sef adrannau 17A ac 17B. Nid yw'r fersiwn ar legislation.gov.uk (y wefan y cyfeiriwyd ati uchod) wedi'i diwygio eto i gynnwys y ddwy adran newydd. Yn lle hynny, mae'r adrannau ynghlwm wrth y llythyr hwn. Fe welwch fod yr adrannau'n caniatáu i berson fod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin (hy yn AS) ac yn Aelod o'r Cynulliad am gyfnodau cyfyngedig o dan amgylchiadau penodol.

Yr ail newid yw mai'r Gorchymyn y cyfeirir ato yn adran 16(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.

Cafodd rhestr gyfansawdd o'r swyddi (Atodiad 2), y penodiadau a'r cyflogaethau sy'n gwahardd person rhag bod yn Aelod Cynulliad ei pharatoi ar 4 Mai 2016 i'w defnyddio'n fewnol, ac mae i'w gweld isod. Roedd yn gywir fel ar 4 Mai 2016. Mae'r rhestr yn adlewyrchu'r holl swyddi a fyddai'n anghymhwyso Aelod hy y swyddi sydd wedi'u rhestru yn adran 16, gan gynnwys y swyddi sy'n eu hanghymwyso drwy gyfrwng y gorchymyn y cyfeirir ato yn is-adran (1)(b).) Fe welwch fod ambell gofnod mewn print trwm ac mae hyn yn dangos y gwahaniaeth rhwng darpariaethau Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 a'r Gorchymyn a oedd mewn grym adeg etholiad 2011.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan, sef www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Atodiad 1** – Adrannau 17A a 17B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006
Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg felly mae'r detholiad yn yr iaith wreiddiol.

[17A.— **Exception from disqualification by virtue of being an MP: recently elected members**
(1) A person returned at an election as an Assembly member is not disqualified under section 16(1)(za) (disqualification by virtue of being an MP) at any time in the period of 8 days beginning with the day the person is so returned.

(2) Subsection (3) applies where a person—

(a) is returned at an election as an Assembly member,

(b) on being so returned is a candidate for election to the House of Commons, and

(c) is subsequently returned at that election as a member of that House.

(3) The person is not disqualified under section 16(1)(za) at any time in the period of 8 days beginning with the day the person is returned as a member of the House of Commons.

(4) A person is a *"candidate for election to the House of Commons"* if the person's nomination paper for election as a member of the House of Commons has been delivered to the returning officer under rule 6 of Schedule 1 to the Representation of the People Act 1983 (parliamentary election rules).]

[17B.— **Exception from disqualification by virtue of being an MP: general election of Assembly members within 372 days**
(1) This section applies if—

(a) an Assembly member is returned as a member of the House of Commons, and

(b) the expected day of the next general election of Assembly members is within the period of 372 days beginning with the day the person is so returned ("the return day").

(2) The member is not disqualified under section 16(1)(za) (disqualification by virtue of being an MP) at any time in the period—

(a) beginning with the return day, and

(b) ending immediately before the day of the next general election of Assembly members.

(3) For the purposes of subsection (1)(b) the expected day of the next general election of Assembly members is to be determined by reference to the circumstances as at the beginning of the return day ("the relevant time").

(4) Where, at the relevant time, section 5(2) or (3) (extraordinary general elections) applies—

(a) if an Order in Council under section 5(4) has been made, the expected day is the day on which the poll is required to be held in accordance with that Order;

(b) if no Order in Council under section 5(4) has been made but a day has been proposed under section 5(1), that is the expected day;

(c) otherwise, the expected day is to be treated as being within the period mentioned in subsection (1)(b).

(5) For the purpose of determining the expected day, no account is to be taken of the possibility of—

(a) an order under section 4 (power to vary date of ordinary general election) being made after the relevant time, or

(b) section 5(2) or (3) (extraordinary general elections) first applying after that time.

(6) References in this section to the *"day"* of the election are to the day on which the poll at the election is held.]

**Atodiad 2**

**SWYDDI SY'N ANGHYMYSO'R DEILIAID RHAG BOD YN AELODAU O GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

***Mae'r swyddi mewn print trwm yn swyddi nad oeddent wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn blaenorol 2010, neu'n swyddi sydd wedi newid rhywfaint.***

| | |
|---|---|
| Tribiwnlys a sefydlwyd o dan adran 27, ac Atodlen 3 i Ddeddf Addysg 2005 | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys y cyfeirir ato ym mharagraff 10 o Atodlen 26 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 | Yr holl aelodau |
| Panel Dyfarnu Cymru | Yr holl aelodau |
| **Y Pwyllgor Cynghori ar Bathogenau Peryglus** | **Yr holl aelodau** |
| Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu | Holl aelodau'r Cyngor |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru | Yr holl aelodau |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Yr holl aelodau |
| Lluoedd arfog y Goron | Aelod rheolaidd |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | |
| Y Gronfa Loteri Fawr | Pob aelod a benodir o dan baragraff 1 o Atodlen 4A i Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 neu aelod o bwyllgor a sefydlir o dan baragraff 7(1)(b) o'r Atodlen honno |
| Bwrdd Canolwyr Meddygol | Pob aelod a benodir gan Weinidogion Cymru. |
| Comisiwn Ffiniau Cymru | **Y Comisiynwyr** |
| Ymddiriedolaeth y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig | Yr holl aelodau |
| British Council | Y Cadeirydd a'r **Prif Weithredwr** |
| Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain | Yr holl aelodau |
| Cyngor Gofal Cymru | Yr holl aelodau |
| Swyddog Ardystio ac unrhyw Swyddog Ardystio Cynorthwyol sydd â swyddogaethau o dan Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 | Y Swyddog Ardystio ac unrhyw Swyddog Ardystio Cynorthwyol |
| Corfforaeth Deledu Channel Four | Yr holl aelodau |
| Cadeirydd Llys Tir yr Alban. | |
| Prif Gomisiynydd neu unrhyw Gomisiynydd Cynnal Plant Gogledd Iwerddon [neu ddirprwy Gomisiynydd | |

| | |
|---|---|
| Cynnal Plant Gogledd Iwerddon] | |
| Prif Gomisiynydd Nawdd Cymdeithasol neu Gomisiynydd Nawdd Cymdeithasol arall (ond nid y Dirprwy Gomisiynydd) | |
| Prif Gomisiynydd Nawdd Cymdeithasol neu Gomisiynydd Nawdd Cymdeithasol arall Gogledd Iwerddon neu Ddirprwy Gomisiynydd Nawdd Cymdeithasol Gogledd Iwerddon | |
| Comisiynydd Plant Cymru | Y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd |
| Barnwr Cylchdaith | |
| Y Gwasanaeth Sifil | Yr holl staff p'un a ydynt yn weithwyr sefydledig ai peidio, a ph'un a ydynt yn gweithio'n llawn neu'n rhan amser. |
| **Comisiwn y Gwasanaeth Sifil** | **Prif Gomisiynydd y gwasanaeth sifil a'r holl gomisiynwyr** |
| Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus | |
| **Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd** | **Yr holl aelodau** |
| Y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol | |
| Barnwr Llys Sirol neu Ddirprwy Farnwr Llys Sirol Gogledd Iwerddon. | |
| Barnwr Dosbarth (llys ynadon) (ond nid y Dirprwy Farnwr Dosbarth (llys ynadon)). | |
| Barnwr Dosbarth (llysoedd ynadon), neu Ddirprwy Farnwr Dosbarth (llysoedd ynadon) Gogledd Iwerddon. | |
| **Cyngor y Gweithlu Addysg** | **Yr holl aelodau** |
| Y Comisiwn Etholiadol | Yr holl aelodau a'r staff |
| **Pwyllgor y Gwasanaethau Ambiwlans Brys** | **Y Cadeirydd** |
| **Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth** | **Yr holl aelodau** |
| Cwmni Cyhoeddus Cyfyngedig Cyllid Cymru neu unrhyw is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Cwmni Cyhoeddus Cyfyngedig Cyllid Cymru | **Cyfarwyddwyr** |
| **Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol** | **Yr holl aelodau** |
| Y Gwasanaeth Tân ac Achub | Yr Arolygydd neu'r Arolygydd Cynorthwyol a benodir o dan adran 28 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac |

| | |
|---|---|
| | Achub 2004 |
| **Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru (FFPSAB)** | **Yr holl aelodau** |
| Y Tribiwnlys Haen Gyntaf | Yr holl aelodau |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | Yr holl aelodau |
| **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** | |
| Awdurdod y Marchnadoedd Nwy a Thrydan | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Yr holl aelodau |
| Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant | |
| Arglwydd Raglaw ei Mawrhydi neu Raglaw dros ardal yng Nghymru – *(DS-cânt eu hanghymhwyso dim ond ar gyfer etholaeth Cynulliad neu ranbarth etholiadol y Cynulliad sy'n rhan o'r ardal honno – naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol.)* | |
| Uchel Siryf un o ardaloedd Cymru *(DS-cânt eu hanghymhwyso dim ond ar gyfer etholaeth Cynulliad neu ranbarth etholiadol y Cynulliad sy'n rhan o'r ardal honno – naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol.)* | |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Yr holl aelodau, heblaw aelod sydd hefyd yn un o gyflogeion y Cyngor |
| Tŷ'r Cyffredin | Yr holl aelodau – (DS – gweler nodyn ynghylch eithriadau s17A & 17B Deddf Llywodraeth Cymru 2006) |
| Awdurdod Ffrwythloni ac Embryoleg Dynol | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol | Yr holl aelodau |
| **Dyfarnwr annibynnol awdurdodau lleol Cymru** | |
| Archwilydd Achosion Annibynnol dros yr Adran Gwaith a Phensiynau | Yr Archwilydd Achosion Annibynnol |
| Gweinyddwr Annibynnol Cwynion Dŵr Daear a benodir o dan adran 21 o Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 a pharagraff 27 o Atodlen 7 iddi(b); | |
| Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu | Yr holl aelodau |
| Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol | Yr holl aelodau |
| Panel Cwynion Annibynnol y | Yr holl aelodau |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur | Yr holl aelodau |
| Barnwr y llys apêl milwrol | |
| Barnwr Llys y Sesiwn, neu Farnwr dros dro yn yr Alban | |
| Barnwr Uchel Lys Cyfiawnder neu Lys Apêl Gogledd Iwerddon | |
| Barnwr y Goruchaf Lys | |
| Ddeddfwrfa unrhyw wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Gymanwlad (ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon) | Yr holl aelodau |
| **Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymru** | **Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr** |
| **Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** | **Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd** |
| Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru | Yr holl aelodau, nad ydynt hefyd yn gyflogeion |
| Y Sefydliad Rheoli Morol | Yr holl aelodau |
| Hybu Cig Cymru | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Yr holl aelodau |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Staff y Comisiwn - DS Nid yw'n cynnwys staff cymorth a gyflogir gan Aelodau'r Cynulliad |
| Corfforaeth Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol | Yr holl aelodau'r sy'n **Ymddiriedolwyr** |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol y mae pob un o'i hysbytai, ei sefydliadau neu ei chyfleusterau, neu rai ohonynt, yng Nghymru | Y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a benodir gan Weinidogion Cymru |
| Amgueddfa Cymru | Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a benodir gan Weinidogion Cymru |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru | Yr holl aelodau |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru** | **Y Prif Weithredwr, y Cadeirydd a'r aelodau** |
| Y Swyddfa Gyfathrebiadau | Yr holl aelodau |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd |
| Y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth | |
| Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau | Y Cyfarwyddwyr |

| | |
|---|---|
| Yr Ombwdsmon Pensiynau o dan adran 145 o Ddeddf Cynlluniau Pensiynau 1993 ac unrhyw ddirprwy i'r Ombwdsmon hwnnw a benodir o dan adran 145A o'r Ddeddf honno | |
| Y Gronfa Diogelu Pensiynau | Yr holl aelodau a'r Ombwdsmon ar gyfer Bwrdd y Gronfa Diogelu Pensiynau a benodir o dan adran 209 o Ddeddf Pensiynau 2004 ac unrhyw ddirprwy i'r Ombwdsmon hwnnw a benodir o dan adran 210 o'r Ddeddf honno |
| Y Rheoleiddiwr Pensiynau | Yr holl aelodau, ac aelodau'r pwyllgor a sefydlwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau o dan adran 9 o Ddeddf Pensiynau 2004 |
| Person sy'n dal swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, mewn:<br>(a) awdurdod lleol yng Nghymru, o fewn ystyr rhan (b) o Ddeddf Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru. | |
| **Comisiynydd Heddlu a Throseddu a benodir o dan adran 1 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, ac unrhyw ddirprwy a benodir gan y Comisiynydd o dan adran 18 o'r Ddeddf honno** | |
| Heddlu a gynhelir gan gorff plismona lleol neu Awdurdod Heddlu. | Yr holl aelodau |
| **Awdurdod Safonau Proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | **Yr holl aelodau** |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | |
| Pwyllgor asesu rhent ar gyfer ardal neu ardaloedd y mae pob rhan ohonynt yng Nghymru | Pob aelod o banel a sefydlwyd o dan Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977 |
| Swyddog canlyniadau etholaeth neu ranbarth etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru | |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | **Y Comisiynwyr** |
| Prif Siryf, siryf, siryf diannod, prif siryf dros dro, siryf rhan amser neu siryf diannod rhan amser dros dro yn yr Alban. | |

| | |
|---|---|
| Sianel Pedwar Cymru | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n cyflawni swyddogaethau'n ymwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl â Chymru | Yr holl aelodau, nad ydynt hefyd yn gyflogai |
| Cyngor Chwaraeon Cymru - **Chwaraeon Cymru** yw'r enw arall arno | Yr holl aelodau |
| Y Bwrdd Ystadegau a sefydlwyd o dan Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 | Yr holl aelodau |
| Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr | **Yr holl aelodau** a'r Prif Weithredwr |
| Bwrdd Strategaeth Technoleg - Innovate UK yw'r enw arall arno | **Yr holl aelodau** a'r Prif Weithredwr |
| Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau | Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, neu Gyfarwyddwr neu Gomisiynydd y Comisiwn hwnnw a benodwyd gan Brif Weinidog Cymru |
| Yr Uwch Dribiwnlys | Yr holl Aelodau |
| Tribiwnlys Prisio Cymru | Yr holl Aelodau |
| **Swyddfa Archwilio Cymru** | **Yr holl staff a'r archwilwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio i Swyddfa Archwilio Cymru neu Archwilydd Cyffredinol Cymru** |
| **Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru** | **Yr holl Aelodau** |
| Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Y Cadeirydd |
| Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol | Yr holl Aelodau |
| **Comisiynydd y Gymraeg** | **Comisiynydd y Gymraeg, Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg ac aelodau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg** |
| **Tribiwnlys y Gymraeg** | **Yr holl Aelodau** |

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF